# Polisi Offer Sgrin Arddangos

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo** | *Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd* |
| **Dyddiad Cymeradwyo** | *Mehefin 2017* |
| **Perchennog y Polisi / Cyfarwyddyd** | *Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd* |
| **Cyswyllt y Polisi / Cyfarwyddyd** | *Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd*<br>*hasstaff@aber.ac.uk neu 01970 62(2073)* |
| **Statws y Polisi / Cyfarwyddyd** | *Diwygiedig* |
| **Cyfeirnod** | *P012* |
| **Fersiwn** | *V2.0* |
| **Dyddiad Adolygu** | *Bob 3 Mlynedd* |

**1.0 Diben:**

1.1 Darparu arweiniad ar gyfer asesu gweithfannau sy'n cynnwys offer sgrin arddangos (OSA) a gweithgareddau gwaith Defnyddwyr er mwyn lleihau risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â'r gwaith.

**2.0 Cwmpas:**

2.1 Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu ar gyfer pawb sy'n defnyddio offer OSA fel rhan o'u gwaith ym Mhrifysgol Aberystwyth (PA).

2.2 Cynnal y dyletswydd gofal i aelodau staff mewn perthynas â defnyddio offer sgrin arddangos o dan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc, 1974;
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Offer Sgrin Arddangos), 1992;
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999;
- Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998;
- Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992;

**3.0 Diffiniadau:**

3.1 'Defnyddiwr': Aelod o staff PA neu fyfyriwr ymchwil ôl-raddedig PA sy'n gorfod defnyddio offer OSA mewn modd dwys fel rhan o'u gwaith arferol.

3.2 'Offer Sgrin Arddangos' (OSA): Offer sy'n cynnwys uned arddangos weledol sy'n dangos testun a/neu ddelweddau y mae'n rhaid eu gweld fel rhan o weithgaredd gwaith ac offer rheoli â llaw sydd angen eu gweithredu'n gyson fel rhan o'r gwaith hwnnw.

- Mae'r enghreifftiau o offer OSA a ddefnyddir yn eang yn y Brifysgol yn cynnwys gweithfannau cyfrifiaduron, gliniaduron, cyfarpar symudol, offer golygu fideo a darllenwyr microffilm / microfiche. (Nid yw offer ymchwil arbenigol – megis microsgopau electron – wedi'u cynnwys o fewn cwmpas y polisi hwn, er y gallai'r egwyddorion ergonomig gael eu cymhwyso gan y rhai sy'n gyfrifol am hyfforddi Defnyddwyr offer o'r fath.)
- *Noder:* Bydd angen i unrhyw aelod o staff PA sydd ag anabledd perthnasol, ac sydd angen defnyddio OSA, dderbyn asesiad a hyfforddiant priodol, yn annibynnol ar y meini prawf uchod. Mewn achosion o'r fath, gellir ymgynghori â'r adran Adnoddau Dynol a'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd i helpu i nodi 'addasiadau rhesymol'.

**4.0 Cyfrifoldebau:**

*4.1 Dirprwy Is-Ganghellorion y Cyfadrannau a Phenaethiaid Adrannau Gwasanaeth Proffesiynol:*

- Sicrhau bod asesiadau OSA yn cael eu cynnal.
- Darparu'r cyllid angenrheidiol ar gyfer unrhyw offer neu addasiadau angenrheidiol i weithfannau o ganlyniad i'r asesiad OSA.
- Ariannu profion llygaid a chyfraniad safonol y Brifysgol tuag at gost sbectols OSA os y'u rhagnodir.

*4.2 Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch:*

- Cynorthwyo Dirprwy Is-Ganghellor y Cyfadran / Pennaeth yr Adran Gwasanaeth Proffesiynol drwy gydlynu proses asesu OSA â'u Cyfadran/Adran eu hunain.
- Sefydlu a chadw cofnodion o asesiadau OSA Cyfadrannau/Adrannol, yn cynnwys cofrestr o'r holl Ddefnyddwyr yn y Cyfadran/Adran a'r asesiadau a gyflwynwyd.
- Hysbysu staff y Cyfadran/Adran ynglŷn â phroses asesu OSA.
- Ar ôl eu cwblhau, dylid storio asesiadau OSA yn y Cyfadran/Adran tra bo'r Defnyddwyr yn dal yn aelodau o'r Brifysgol, ac am bum mlynedd pellach ar ôl iddynt adael.

*4.3 Rheolwyr/Goruchwylwyr:*

- Sicrhau bod yr holl unigolion a reolir neu a oruchwylir ganddynt yn cwblhau asesiad OSA personol ac yn ei adolygu'n rheolaidd.
- Cyflwyno unrhyw asesiadau OSA a ddarperir iddynt i'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch.
- Sicrhau bod Defnyddwyr OSA yn derbyn hyfforddiant priodol i ddefnyddio OSA mewn achosion lle mae'n ofynnol fel rhan o'u gwaith.
- Rhoi sylw dyledus i ganlyniadau asesiadau OSA a gwneud unrhyw newidiadau rheolaethol yn ôl y galw.
- Sicrhau bod staff yn ymwybodol bod rhaid iddynt adolygu eu hasesiadau OSA yn flynyddol neu os gwneir newidiadau sylweddol a allai effeithio ar eu dilysrwydd, er enghraifft, newidiadau sylweddol o ran offer, natur y gwaith neu drefn y gweithfannau.
- Cyfeirio (mewn ymgynghoriad â'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch lleol) unrhyw Ddefnyddiwr sydd â phryderon yn sgil eu hasesiad OSA personol, i aseswr OSA cymwys, trwy'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.

*4.4 Defnyddwyr:*

- Cynnal asesiad OSA personol, gan ddefnyddio'r ffurflenni sydd ar gael ar y wefan Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/dse/ ).
- Cyflwyno asesiad OSA wedi'i gwblhau i'w Rheolwr/Goruchwyliwr.
- Rhoi sylw dyledus i ganlyniadau'r asesiad OSA.
- Cymryd cyfrifoldeb am ddilyn cyngor sy'n deillio o'r asesiad OSA ac unrhyw ganllawiau a dderbynnir yn ei sgil.
- Rhoi gwybod i'w Rheolwr/Goruchwyliwr am unrhyw bryderon yn ymwneud ag OSA.
- Cwblhau ac adolygu'n rheolaidd y wybodaeth a ddarperir yn y modiwl E-ddysgu Hanfodion Iechyd a Diogelwch: 'Gweithio'n Ddiogel ar Gyfrifiaduron' (https://www.aber.ac.uk/en/hse/training/hseessentials/).
- Adolygu eu hasesiad OSA yn flynyddol neu os gwneir newidiadau sylweddol a allai effeithio ar eu dilysrwydd, er enghraifft newidiadau sylweddol o ran offer, natur y gwaith neu drefn y gweithfannau. Dylid

adolygu asesiad hefyd os bydd cyflwr meddygol yn codi a allai gael ei achosi neu ei waethygu trwy ddefnyddio OSA.

- Dylid ystyried ymgynghori â Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol y Brifysgol hefyd os oes angen.

4.5 *Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd:*

- Cyfeirio unrhyw bryderon a godir gan Reolwyr/Goruchwylwyr i aseswr OSA cymwys.
- Darparu cyngor ac arweiniad lle bo angen.

## 5.0 Arferion (i Ddefnyddwyr eu dilyn):

5.1 Cynnal asesiad OSA gan ddefnyddio'r 'rhestr wirio VDU' sydd i'w chael ar wefan Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/dse/).

5.2 Gall y camau angenrheidiol i fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion fod yn rai i'w cyflawni ar unwaith (e.e. addasu cadair) neu mae'n bosib y bydd angen cynnwys y Swyddog Diogelwch Adrannol, y Rheolwr/Goruchwyliwr a Dirprwy Is-Ganghellor y Cyfadran / Pennaeth yr Adran Gwasanaeth Proffesiynol (os bydd angen newid patrymau gwaith, offer, meddalwedd a/neu adnoddau).

5.3 Prif amcan yr asesiad yw ceisio atal problemau meddygol rhag datblygu yn y dyfodol. Fodd bynnag, os bydd asesiad yn canfod problem sydd eisoes yn bodoli, neu os bydd cyflwr meddygol perthnasol yn codi, a allai fod yn gysylltiedig â defnyddio offer OSA, mae'n bosib y bydd angen asesiad pellach gan arbenigwyr iechyd galwedigaethol; mewn achosion o'r fath dylid nodi'r broblem ar rhestr wirio'r asesiad a dylai'r Defnyddiwr ymgynghori â Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol y Brifysgol (trwy'r adran Adnoddau Dynol).

5.4 Mae'n bosib y gall Uwchraddedigion Ymchwil hawlio costau profion llygaid ar sail incwm isel. Yn y lle cyntaf dylid llenwi'r ffurflen HC1W (ar gael oddi wrth eich Meddyg Teulu neu o Ganolfan Lles y Myfyrwyr) a'i hanfon i'r cyfeiriad ar y ffurflen. Os gwrthodir cymorth ewch â'r llythyr i'ch adran, a fydd yna'n trefnu i dalu'r costau yn unol â'r drefn arferol i staff.

5.5 Darparu asesiad wedi'i gwblhau i'w Rheolwr/Goruchwyliwr.

## 6.0 Adolygu

6.1 Dylai pob asesiad OSA gael ei adolygu a'i ddiwygio yn ôl y galw yn sgil unrhyw newidiadau sylweddol a allai olygu nad yw'r casgliadau gwreiddiol yn ddilys. Gallai hyn gynnwys, ond ni fydd yn gyfyngedig i, newidiadau posibl megis:

- Newidiadau sylweddol yn y feddalwedd a ddefnyddir;
- Newidiadau sylweddol yn y caledwedd a ddefnyddir (e.e. sgrin, bysellfwrdd, dyfeisiau mewnbynnu, ac ati);
- Newidiadau sylweddol yn nodrefn y weithfan;
- Adleoli gweithfan;
- Newidiadau sylweddol i'r man gwaith (e.e. goleuadau, awyru, ac ati.);
- Cynnydd sylweddol o ran faint o amser a dreulir yn defnyddio OSA;
- Newidiadau sylweddol i agweddau eraill o'r dasg.

6.2 Mewn achosion lle nad oes newidiadau sylweddol wedi cael eu nodi, dylid parhau i adolygu Asesiadau OSA o leiaf bob blwyddyn.

**7.0 Cyfeiriadau:**

7.1 *'HSE (2003) Work with Display Screen Equipment, Health and Safety (Display Screen Equipment) Regulations 1992 as amended by the Health and Safety (Miscellaneous Amendments) Regulations 2002 Guidance on Regulations'* http://www.hse.gov.uk/pubns/priced/l26.pdf

7.2 Rhestr Wirio Unedau Arddangos Gweledol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (2003) http://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/healthsafetyenvironment/vduchecklist.pdf